# MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

rhwng

**Comisiwn y Senedd**

a

**Chomisiynydd Plant Cymru**

Dyddiad y cytundeb hwn yw 22 Tachwedd 2025

**Partïon**

(1) Comisiwn y Senedd, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN (**y Comisiwn**)

(2) Comisiynydd Plant Cymru, Tŷ Llewellyn, Parc Busnes Glan yr Harbwr, Heol yr Harbwr, Port Talbot SA13 1SB (**y Comisiynydd Plant**)

**1. Y cefndir**

1.1 Y Comisiwn yw'r corff corfforedig ar gyfer Senedd Cymru.

1.2 Corfforaeth undyn yw'r Comisiynydd Plant, a'i nod pennaf yw diogelu a hybu hawliau plant yng Nghymru yn unol â Rhan 5 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

1.3 Y Comisiwn yw'r corff corfforedig sy'n gyfrifol am redeg Senedd Ieuenctid Cymru (**y Senedd Ieuenctid**), a sefydlwyd yn 2018. Bu'r Comisiynydd Plant yn weithredol o ran cefnogi ffurfio'r Senedd Ieuenctid, ac ers iddi gael ei sefydlu, mae wedi ymgysylltu'n rheolaidd â gwaith y Senedd Ieuenctid ac wedi cymryd rhan yn rheolaidd yn ei gwaith.

1.4 Mae'r Comisiwn a'r Comisiynydd Plant wedi cytuno i ffurfioli'r ffordd y maent yn ymgysylltu â'i gilydd mewn perthynas â'r Senedd Ieuenctid.

1.5 Mae'r partïon yn dymuno cofnodi ar ba sail y byddant yn cydweithio â'i gilydd ar y Prosiect. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi:

WELSH YOUTH PARLIAMENT SENEDD IEUENCTID CYMRU

(a) y nodau a'r strategaethau a rennir;

(b) egwyddorion cydweithio;

(c) y strwythurau llywodraethiant y bydd y partïon yn eu sefydlu; a

(d) priod rolau a chyfrifoldebau’r partïon yn ystod y Prosiect.

## 2. Y nodau a'r strategaethau a rennir ar gyfer y prosiect

Bydd y partïon yn ymgymryd â'r Prosiect er mwyn cyflawni'r nodau a'r strategaethau a rennir a nodir isod:

| Nod | Strategaeth |
|---|---|
| Sicrhau cynrychiolaeth i grwpiau amrywiol o bobl ifanc o fewn y Senedd Ieuenctid. | Bydd y Comisiynydd Plant yn cefnogi'r broses o ddewis sefydliadau partner swyddogol y Senedd Ieuenctid drwy gynghori'r Llywydd, sy'n gyfrifol am benderfynu pa grwpiau i’w dewis. Yn ymarferol, bydd hyn yn cynnwys y canlynol:<br><br>- Bydd y Comisiynydd Plant yn darparu ymchwil a thystiolaeth berthnasol i'r Comisiwn neu i Senedd Cymru ynghylch grwpiau sydd, ym marn y Comisiynydd Plant, heb gynrychiolaeth ddigonol, a hynny ar sail tystiolaeth a gwaith ymgysylltu’r Comisiynydd Plant ei hun.<br>- Bydd y Comisiynydd Plant yn mynychu cyfarfodydd gyda swyddogion y Comisiwn a'r Llywydd i lywio trafodaethau ynghylch cydbwysedd y sefydliadau arfaethedig o ran cynrychiolaeth ehangach i'r Senedd Ieuenctid.<br>- Comisiwn y Senedd fydd yn llwyr gyfrifol am ddewis sefydliadau partner, a chynghori yn unig fydd rôl y Comisiynydd Plant. |
| Cefnogi Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru (**Aelodau o’r Senedd Ieuenctid**) drwy ddarparu tystiolaeth a data perthnasol i lywio eu gwaith, yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data. | Bydd y Comisiynydd Plant yn rhannu data ag Aelodau o’r Senedd Ieuenctid gan gynnwys Adroddiad Cyflwr y Genedl a chanfyddiadau Gobeithion i Gymru, yn ogystal â chynllun strategol cyfredol a blaenoriaethau blynyddol y Comisiynydd Plant.<br><br>Pan fydd Aelodau o’r Senedd Ieuenctid wedi pennu blaenoriaethau, a phwyllgorau perthnasol y Senedd Ieuenctid wedi'u sefydlu, gwahoddir cynrychiolwyr o swyddfa'r Comisiynydd Plant i rannu tystiolaeth berthnasol ag Aelodau o’r Senedd Ieuenctid ar y meysydd blaenoriaeth perthnasol hynny. |

| | |
|---|---|
| Hybu ymgysylltu â'r Senedd Ieuenctid. | Bydd y Comisiynydd Plant yn:<br><br>- Rhoi cyhoeddusrwydd i ymgyngoriadau Aelodau o'r Senedd Ieuenctid, i helpu i bennu tri maes blaenoriaeth yr Aelodau o'r Senedd Ieuenctid.<br>- Annog y panel ymgynghorol pobl ifanc i ymateb i ymgyngoriadau a gynhelir gan y Senedd Ieuenctid.<br>- Cefnogi ymgysylltu rhwng y Senedd Ieuenctid a'r panel ymgynghorol pobl ifanc, lle bo hynny'n briodol. |
| Dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, gan barchu a diogelu annibyniaeth y naill sefydliad a'r llall. | - Lle bo hynny'n briodol, gwahoddir pwyllgorau'r Senedd Ieuenctid i ystyried cynnwys argymhellion i'r Comisiynydd Plant, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, yn eu hadroddiadau thematig.<br>- Bydd y Comisiynydd Plant yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar weithredu argymhellion y Senedd Ieuenctid yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. |
| Parhau i hyrwyddo gwaith y Senedd Ieuenctid, a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau ac argymhellion y Senedd Ieuenctid, ac nad yw'r argymhellion yn mynd ar goll pan etholir Aelodau newydd i'r Senedd Ieuenctid. | - Bydd y Comisiynydd Plant yn defnyddio ei blatfform gyda Llywodraeth Cymru a'r Senedd i hyrwyddo'r canfyddiadau sy'n deillio o waith y Senedd Ieuenctid (megis argymhellion mewn adroddiadau) ac i alw am gamau gweithredu lle bo hynny'n briodol. |
| Osgoi dyblygu gwaith rhwng y Comisiynydd Plant a'r Senedd Ieuenctid, a sicrhau yr ymgysylltir yn effeithiol â phobl ifanc er mwyn osgoi syrffed ar ymgynghori ar faterion amserol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio ag Aelodau o'r Senedd Ieuenctid a phanel | Bydd cynrychiolwyr y Comisiynydd Plant, gan gynnwys y panel ymgynghorol pobl ifanc, yn:<br><br>- Mynychu sesiynau preswyl y Senedd Ieuenctid i roi adroddiad cynnydd ar gamau gweithredu sy'n ymwneud â blaenoriaethau ac argymhellion y Senedd Ieuenctid.<br>- Rhannu tystiolaeth â phwyllgorau'r Senedd Ieuenctid ar feysydd blaenoriaeth.<br><br>Bydd y Comisiynydd Plant yn ymgysylltu â'r Senedd Ieuenctid i lywio adroddiadau cynnydd a ddarperir i Bwyllgor y |

| | |
|---|---|
| ymgynghorol pobl ifanc y Comisiynydd Plant. | Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n monitro cynnydd gwladwriaethau o ran cyflawni eu haddewidion ar hawliau dynol. |

**3. Egwyddorion cydweithio**

3.1 Bydd y ddau barti yn cadw at ofynion statudol ac arfer gorau.

3.2 Bydd y ddau barti yn cydymffurfio â chyfreithiau a safonau cymwys gan gynnwys rheolau caffael cyhoeddus, deddfwriaeth diogelu data a rhyddid gwybodaeth.

3.3 Ni fydd unrhyw ddata, ymchwil na dogfennaeth a rennir rhwng y ddau barti yn cynnwys unrhyw wybodaeth gyfrinachol nac adnabyddadwy. **Error! Bookmark not defined.**

**4. Uwchgyfeirio**

Os oes gan y naill barti neu'r llall unrhyw faterion, pryderon neu gwynion i'w codi ynghylch y Prosiect, neu unrhyw fater yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, bydd y parti hwnnw'n hysbysu'r parti arall ac yna bydd y partïon yn ceisio datrys y mater drwy broses o ymgynghori.

**5. Eiddo deallusol**

5.1 Bwriad y partïon yw y bydd unrhyw hawliau eiddo deallusol a grëir yn ystod y Prosiect yn eiddo i'r parti yr oedd cyflogai iddo'n gyfrifol am eu creu.

5.2 Pan fo unrhyw hawl eiddo deallusol yn eiddo i'r naill barti neu'r llall yn unol â'r bwriad a nodir yng nghymal 5.1 uchod, bydd y parti hwnnw'n rhoi trwydded di-alw'n-ôl i'r parti arall i ddefnyddio'r eiddo deallusol hwnnw at ddibenion y Prosiect.

**6. Tymor a therfynu**

6.1 Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn dechrau ar ddyddiad ei lofnodi gan y ddau barti, ac yn dod i ben ar ddiwedd tymor pob Senedd Ieuenctid. Bydd trefniadau ar gyfer adnewyddu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac unrhyw ddiwygiadau sydd eu hangen ar gyfer cytundebau yn y dyfodol yn cael eu trafod ar yr adeg hon.

6.2 Gall y naill barti neu'r llall derfynu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn drwy roi o leiaf dri mis o rybudd yn ysgrifenedig i'r parti arall ar unrhyw adeg.

**7. Amrywio**

Dim ond drwy gytundeb ysgrifenedig y partïon y gellir amrywio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, gan gynnwys yr Atodiadau.

**8. Taliadau ac atebolrwyddau**

8.1 Ac eithrio fel y darperir fel arall, bydd y partïon yn ysgwyddo eu costau a'u treuliau eu hunain yr eir iddynt wrth gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

8.2 Bydd y ddau barti yn parhau i fod yn atebol am unrhyw golledion neu atebolrwyddau yr eir iddynt oherwydd eu gweithredoedd eu hunain neu weithredoedd cyflogai iddynt, ac nid yw'r naill barti na'r llall yn bwriadu i'r parti arall fod yn atebol am unrhyw golled y mae'n ei dioddef o ganlyniad i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

**9. Statws**

9.1 Ni fwriedir i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn fod yn gyfreithiol rwymol, ac ni fydd unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol na hawliau cyfreithiol yn codi rhwng y partïon o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn. Mae'r partïon yn ymrwymo i’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r bwriad o anrhydeddu eu holl rwymedigaethau.


9.2 Ni fwriedir i unrhyw beth yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn greu unrhyw bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng y partïon, sefydlu’r naill barti fel asiant i’r parti arall, nac awdurdodi’r naill barti na’r llall i wneud neu gytuno i unrhyw ymrwymiadau dros neu ar ran y parti arall, ac ni ddylid tybio bod unrhyw beth ynddo yn gwneud unrhyw un o’r pethau hynny.

**10. Y gyfraith lywodraethol ac awdurdodaeth**

Llywodraethir y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn gan gyfraith Cymru a Lloegr fel y mae'n gymwys yng Nghymru ac mae i’w ddehongli yn unol â’r gyfraith honno a, heb effeithio ar y weithdrefn uwchgyfeirio a nodir yng nghymal 4clause , mae’r naill barti a’r llall yn cytuno i ildio i awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr yn unig.

**Llofnodwyd dros ac ar ran Comisiwn y Senedd**

Llofnod:



| | |
|---|---|
| Enw: | Elin Jones |
| Swydd: | Llywydd |
| Dyddiad: | 4 Mawrth 2026 |

**Llofnodwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru:**

Llofnod:



| | |
|---|---|
| Enw: | Rocio Cifuentes |
| Swydd: | Comisiynydd Plant Cymru |
| Dyddiad: | 6 Mawrth 2026 |

ENWAU CYSWLLT

**Y Comisiwn**

| | |
|---|---|
| Enw: | Delyth Lewis |
| Cyfeiriad swyddfa: | Senedd Cymru<br>Tŷ Hywel<br>Bae Caerdydd<br>CF5 1GG |
| Rhif ffôn: | |
| Cyfeiriad e-bost: | delyth.lewis@senedd.cymru |

**Y Comisiynydd Plant**

| | |
|---|---|
| Enw: | Rocio Cifuentes |
| Cyfeiriad swyddfa: | Ty Llewellyn |
| | Parc Busness Glan yr Harbwr |
| | Heol yr Harbwr |
| | Port Talbot |
| | SA13 1SB |
| Rhif ffôn: | |
| Cyfeiriad e-bost: | Post@childcomwales.org.uk |

WELSH YOUTH PARLIAMENT

SENEDD IEUENCTID CYMRU